# Cynllun strategol y gymraeg mewn Addysg

## Enw'r Awdurdod Lleol

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

## Cyfnod y cynllun hwn

**2022-2031**

Gwneir y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (y Cynllun Strategol) hwn o dan adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac mae'r cynnwys yn cydymffurfio â Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019[1-2]. Rydym ni wedi rhoi sylw dyledus i'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth bennu ein targedau.

**Llofnod**:

**Dyddiad**:

(Mae angen i'r cynllun hwn gael ei lofnodi gan y Prif Swyddog Addysg yn eich awdurdod lleol)

---

[1] Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019

[2] Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

# Nodiadau i'ch helpu

Bydd angen i chi amlinellu gweledigaeth addysg cyfrwng Cymraeg eich awdurdod lleol ar gyfer y deng mlynedd nesaf, a'r prif amcanion strategol ar gyfer y cyfnod hwn. Dangoswch sut y byddwch yn cyflawni Deilliannau 1 i 7, gan gyfeirio at y canllawiau.

Cyn cwblhau'r templed hwn, cyfeiriwch yn benodol at Ran 2 o'r Canllawiau ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

**https://llyw.cymru/cynlluniau-strategol-cymraeg-mewn-addysg?_ga=2.24870714.1011225467.1631496564-1400478915.1628200552**

Mae'r rhan hon yn nodi'r gofynion statudol ar gyfer yr hyn y mae'n rhaid ei gynnwys yn eich Cynllun (fel yr amlinellir yn Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019). Yn ogystal â'ch targed deng mlynedd gyffredinol, mae rhai datganiadau yn yr Atodlen yn gofyn i chi bennu targedau eraill, ac os felly, cyfeiriwch atynt yn y fan yma.

# Ein gweledigaeth ddeng mlynedd ar gyfer cynyddu a gwella'r gwaith o gynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn ein hardal

## Gweledigaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Mae gweledigaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cyd-fynd â'r weledigaeth Cymraeg 2050 - miliwn o siaradwyr Cymraeg (Llywodraeth Cymru, 2017). Fel awdurdod lleol, *rydym yn dymuno i'r Gymraeg ffynnu, a chael ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd. Ymhlith y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg, ceir ewyllys da ac ymdeimlad o berchnogaeth tuag at yr iaith ac mae pawb yn cydnabod ei chyfraniad at ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru.*

*Ein gweledigaeth yw sicrhau amgylchiadau ffafriol ledled yr awdurdod lleol sy'n cefnogi'r dasg o ddysgu iaith a'r defnydd o sgiliau Cymraeg. Rydym yn dymuno gweld cynnydd o ran trosglwyddo iaith yn y teulu, cyflwyno'r Gymraeg i bob plentyn yn gynnar, system addysg sy'n darparu sgiliau Cymraeg i bawb, a gwerthfawrogiad gwell o sgiliau Cymraeg yn y gweithle. Ar yr un pryd, rydym wedi ymrwymo i gefnogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol, yn y gwaith, ac wrth ddefnyddio gwasanaethau.*

Dylai weledigaeth y Cyngor ar gyfer darparu addysg cyfrwng Cymraeg a chymorth ar gyfer addysgu'r Gymraeg:

- gyflawni egwyddorion allweddol cydraddoldeb, dewis a chyfle i bawb;
- parchu, hybu ac ymgorffori amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol Pen-y-bont ar Ogwr a Chymru;
- cydnabod treftadaeth Gymreig gyffredin;
- adlewyrchu anghenion cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru yn yr 21ain ganrif;
- rhoi cyfle i fyfyrio ar hunaniaeth bersonol ac ymdeimlad o le a chymuned, a'u datblygu;
- bod yn gyson â'r dyheadau cenedlaethol a nodir yn Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru;
- ystyried Strategaeth y Gymraeg (2016) Llywodraeth Cymru i gyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050;
- cyd-fynd â strategaethau Llywodraeth Cymru.

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, ein nod yw sicrhau bod y Cyngor a'i bartneriaid yn y fwrdeistref sirol yn ymgymryd â'r canlynol:

- deall eu priod swyddogaethau yn Fforwm Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (y Cynllun Strategol) mewn cysylltiad â llunio a monitro cynnydd y Cynllun Strategol;
- hybu'r iaith er mwyn creu galw;
- sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael i bob plentyn o oedran cyn ysgol ac uwch y mae ei rieni/gofalwyr yn dymuno iddo dderbyn ei ofal/addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, a hyn o fewn pellter teithio rhesymol o gartrefi plant;
- sicrhau continwwm sy'n datblygu o addysg gynradd cyfrwng Cymraeg hyd at addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg, fel y bydd disgyblion sy'n dechrau eu haddysg gynradd drwy gyfrwng y Gymraeg yn trosglwyddo i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ac yn symud ymlaen yn unol â hynny i addysg bellach ac uwch a hyfforddiant;
- sicrhau bod pob ysgol a lleoliad yn ymateb yn rhagweithiol a chyda brwdfrydedd i'r Cwricwlwm i Gymru mewn perthynas â'r Maes Dysgu a Phrofiad ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu, fel bod ein dysgwyr yn parhau i ennill sgiliau a gwybodaeth ystyrlon yn y Gymraeg;
- sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael cyfle cyfartal ieithyddol o ran addysg cyfrwng Cymraeg, yn unol â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a Chod Ymarfer Cymru;
- gweithio mewn partneriaeth â phob ysgol er mwyn gwella safon y Gymraeg a;
- hybu datblygiad ehangach sgiliau Cymraeg disgyblion trwy weithgareddau a phrosiectau penodol, mewn cysylltiad ag ystod eang o bartneriaid.

## Ein Targed 10 mlynedd

Er mwyn cefnogi Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynyddu canran y dysgwyr a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg o tua 8% i rhwng 14% - 18% erbyn 2032 (yn seiliedig ar ddata CYBLD dysgwyr blwyddyn 1 2019-2020) . Mae hyn yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019.

Ar hyn o bryd yn ein hysgolion cyfrwng Cymraeg mae 162 o leoedd i ddisgyblion ar gael i ddysgwyr oedran dosbarth Derbyn. Mae'r awdurdod lleol wedi gosod targed o 300 o leoedd dosbarth Derbyn ar gael i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg erbyn diwedd cyfnod y cynllun, sy'n golygu 138 o leoedd ysgol newydd. Mae'r cyfanswm o 300 o leoedd dosbarth Derbyn yn cyfateb i 10 dosbarth, a'r nod yw sicrhau bod y lleoedd hynny'n cael eu llenwi.

Mae'r Cyngor yn anelu at gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn sylweddol ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae'r cynnydd canran targed a ragnodwyd gan Lywodraeth Cymru a rhagolwg yr awdurdod lleol o'r boblogaeth disgyblion dros y 10 mlynedd nesaf wedi cael eu hystyried.

Mae'r CSCA hwn yn nodi cynllun Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr dros y 10 mlynedd nesaf i gynyddu a gwella'r gwaith o gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn ystod ein Cynllun CSCA blaenorol (2017-2022) ac yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni ein targedau.

Mae'r rhain yn cynnwys;

- Cynyddu lleoedd gofal plant sesiynol cyfrwng Cymraeg (gan greu potensial ar gyfer 176 o sesiynau sesiynol ychwanegol) drwy sefydlu pedwar canolfan gofal plant cyfrwng Cymraeg newydd drwy'r grant cyfalaf cynnig gofal plant
- Parhau i fuddsoddi yn ein rhaglen gyfalaf ysgolion a cholegau ysgolion yr 21ain ganrif i gynyddu nifer y lleoedd mewn ysgolion meithrin cyfrwng-Cymraegdrwy ehangu dwy o'n hysgolion cyfrwng Cymraeg yn ystod pum mlynedd gyntaf y cynllun
- Datblygu ymrwymiadau a wnaed yn y Cabinet i sefydlu darpariaeth cyfrwng Cymraeg 1 dosbarth ym Mhorthcawl ac ysgol ffrwd ddeuol ym Mharc Afon Awenni
- Archwilio opsiynau i adleoli ac ehangu Ysgol Llangynwyd i ysgol 3-19 oed
- Datblygu trefniadau clir a chadarn ar gyfer darparu darpariaeth hwyrddyfodiaid cyfrwng Cymraeg, fel bod dysgwyr sy'n ymuno â'r sector cyfrwng Cymraeg yn hwyrach ar y siwrne yn gallu dilyn cwrs o ddysgu trochi dwys cyn parhau ar eu taith addysg mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.

• Parhau i gydweithio â'n fforwm cynllunio y Gymraeg mewn addysg ac is-grwpiau perthnasol i adolygu a gwella'n barhaus sut rydym yn rhoi gwybodaeth i’n rhieni a gofalwyr am addysg cyfrwng Cymraeg a'r cyfleoedd a ddaw yn ei sgil i fod yn ddwyieithog.

### Trochi yn y Gymraeg

Bydd yr awdurdod lleol yn ystyried cydweithredu ag awdurdodau lleol eraill o ran darpariaeth Uned Trochi Iaith. Cynllunnir y gwaith hwn yn strategol dros gyfnod o amser gyda’r nod o gynyddu canran y Gymraeg a addysgir mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, a wneir drwy dargedu cyfranogwyr a darparu’r cymorth angenrheidiol i ysgolion unigol.

# Deilliant 1

## Mae mwy o blant meithrin/ tair oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

### Y sefyllfa bresennol?

#### 1.1

Mae’r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (yr Asesiad Digonolrwydd) yn broses dogfen waith ac organig. Mae’n hanfodol bod yr awdurdod lleol yn dangos ei wybodaeth eglur am sector y blynyddoedd cynnar a meysydd lle ceir bylchau, a’i fod yn llunio cynllun gweithredu blynyddol. Bydd y sylw eglur hwn yn galluogi pob datblygiad yn y dyfodol ar draws gofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar i ganolbwyntio ar ddarpariaeth sydd â’r nod o gynyddu’r ddarpariaeth yn y ddau gyfrwng, gan ganolbwyntio’n benodol ar nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau y cefnogir dewis teg.

Cynhelir yr Asesiad Digonolrwydd cyn bo hir, a bydd rhagor o ddata ynghylch swyddi gwag yn y ddarpariaeth bryd hynny.

Booklet January 2020 E-W.pdf | Booklet January 2019 E-W.pdf | Booklet January 2018 E-W v2.pdf

## 1.2

Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y Polisi Derbyniadau Ysgolion ar gyfer y flwyddyn berthnasol ac yn y llyfryn Dechrau yn yr Ysgol blynyddol yn tynnu sylw at y dewisiadau sydd ar gael i rieni ynghylch ysgolion cyfrwng Cymraeg a'r meini prawf pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael yn unol â dyletswydd statudol yr awdurdod lleol. Caiff ysgolion eu categoreiddio fel rhai cyfrwng Cymraeg yn y polisi derbyniadau blynyddol. Adlewyrchir sut y darperir addysg cyfrwng Cymraeg ym mhob ysgol yn y llyfryn Dechrau yn yr Ysgol.

Mae'r broses derbyniadau ysgolion ar-lein yn unol â dyletswydd gyfreithiol yr awdurdod lleol i ganiatáu i rieni ddewis. Mae taith y defnyddwyr a greddf y system yn allweddol, er nad oes 'taith' ar wahân wrth ddefnyddio'r system ar gyfer rhieni/gofalwyr sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg oherwydd ystyrir nad yw hyn yn angenrheidiol nac yn unol â deddfwriaeth.

Ym mis Ionawr 2019, yn ystod cyfnod diwethaf y cynllun, symudodd Ysgol Gynradd Gymraeg (YGG) Calon y Cymoedd (a elwid gynt yn Ysgol Gynradd Gymraeg (YGG) Cwm Garw) i ysgol newydd mewn ardal a ystyrir yn lleoliad canolog i wasanaethu Cymoedd Garw ac Ogwr. Mae nifer y plant tair oed sy'n manteisio ar leoedd wedi cynyddu o ganlyniad i hynny.

Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu gwybodaeth i rieni o'r enw "Pam dewis addysg Gymraeg". Mae gwybodaeth ar gael trwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. Mae'r wybodaeth hon ar gael yn electronig. Fodd bynnag, mae'n allweddol sicrhau bod yr wybodaeth hon ar gael ym mhob man y mae rhieni, a rhieni sy'n disgwyl, yn derbyn gwasanaethau. Mae gwybodaeth am dderbyniadau i ysgolion eisoes yn eglur ac yn hygyrch. Mae'r Polisi Derbyniadau Ysgolion ar gael ar y wefan a'r prosbectws Dechrau yn yr Ysgol yn yr un modd, sef dogfen sy'n cynnwys gwybodaeth a chanllawiau helaeth. Caiff y dogfennau hyn eu hadolygu bob blwyddyn. Cyhoeddir yr holl ddogfennau yn Gymraeg i'r fersiwn Gymraeg o wefan yr awdurdod lleol ar yr adeg briodol. Mae'r Polisi Derbyniadau Ysgolion ar gyfer 2022-2023 ar y wefan ar hyn o bryd. Cyhoeddir prosbectws Dechrau yn yr Ysgol ar gyfer 2022-2023 ar gyfer y wefan ym mis Medi 2021.

school-admissions-policy-2021-to-2022.

2021-2022-starting-school-prospectus.p

## 1.3

Yn achos addysg cyfrwng Cymraeg, ar gyfer unrhyw ddisgybl na ellir darparu ar ei gyfer yn ei ysgol Gymraeg leol, mae'r awdurdod lleol yn cynnig lle yn yr ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf nesaf ym Mhen-y-bont ar Ogwr, os gofynnir am hynny. Mae hyn yn

cynnwys darparu cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol pan fo'r pellter cerdded o'r cartref i'r ysgol yn fwy na dwy filltir ar gyfer plant ysgol gynradd ac yn fwy na thair milltir ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd.

## 1.4

Dengys data fod nifer y plant sy'n trosglwyddo o ddarpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg i ddarpariaeth feithrin cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu o 50% i 66%. Yn amlwg, ceir materion sy'n gysylltiedig ag effaith y pandemig ac atal darpariaeth y blynyddoedd cynnar a allai fod wedi cael effaith negyddol ar y data. Ni fydd data ar gyfer y flwyddyn academaidd bresennol ar gael tan fis Medi 2021.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ceir:

| **Darparwr** | **Nifer** |
|---|---|
| Meithrinfeydd dydd | 21 |
| Darparwyr gofal plant sesiynol | 9 |
| Dechrau'n Deg | 10 |
| Gwarchodwyr Plant | 53 |
| Darparwyr Cylch Meithrin (7 wrth gynnwys Cylch Meithrin Blaenllynfi, sy'n ddarpariaeth Dechrau'n Deg yn unig) | 6 |
| Darparwyr y tu allan i'r ysgol | 17 |

Mae nifer y lleoedd ym mhob lleoliad yn amrywio yn unol ag oedran y plant sy'n bresennol ar unrhyw ddiwrnod penodol. Er hynny, ceir oddeutu 2,372 o leoedd gofal plant cyfrwng Saesneg ac oddeutu 160 o leoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg.

Yn y sector hwn, ceir 19 o ddarparwyr addysg meithrin nas cynhelir. Mae tri o'r rhain yn cynnig y ddarpariaeth hon drwy gyfrwng y Gymraeg. Ceir ffactorau y tu hwnt i iaith y lleoliad, sy'n effeithio ar y nifer sy'n manteisio ar leoedd yn y ddarpariaeth. Mae rhai o'r rhain yn cynnwys y gymuned y mae'r ddarpariaeth ynddi a'r pellter i'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg.

O ran Dechrau'n Deg yn ystod tymor haf 2021, roedd saith o blant yn mynychu Cylch Meithrin Sgêr, pump yn mynychu Cylch Meithrin Plant Bach a dau yn mynychu Cylch Meithrin Cynwyd Sant.

Dyma'r lleoedd y mae Dechrau'n Deg wedi cyllidebu ar eu cyfer:

- 16 yng Nghylch Meithrin y Sgêr;
- 8 yng Nghylch Meithrin Cynwyd Sant;
- 12 yng Nghylch Meithrin Plant Bach;
- 12 o leoedd yn Dechrau'n Deg Blaenllynfi.

## 1.5

Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio pob cyfle i sicrhau bod cymaint o wybodaeth â phosibl ar gael, ac yna'n sicrhau bod yr wybodaeth hon ar gael yn rhwydd i rieni a gofalwyr. Bydd yr awdurdod lleol yn parhau i fonitro'r defnydd o ymgyrchoedd marchnata gan Lywodraeth Cymru. Mae gweithgor wedi ei gynllunio er mwyn nodi gwelliannau posibl i'r broses dderbyniadau. Mae'r broses yn cael ei hadolygu er mwyn sicrhau bod pob rhiant yn gallu defnyddio'r broses hon yn effeithiol, gan gynnwys rhieni sy'n chwilio am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r wybodaeth a ddatblygwyd er mwyn cefnogi rhieni yn cynnwys adran ar chwalu mythau. Rhoddir pwyslais hefyd ar sicrhau bod yr wybodaeth yn eglur ac y gellir dod o hyd iddi yn rhwydd. Rhoddir ystyriaeth i'r rhieni hynny nad yw eu sgiliau llythrennedd wedi eu datblygu'n ddigonol. Sicrheir hefyd fod manylion Cylchoedd Meithrin ac Ysgolion Cyfrwng Cymraeg yn amlwg. Mae'r posibilrwydd o ddatblygu fideo yn cael ei ystyried hefyd.

## 1.6

Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn cydymffurfio'n llawn â mesur y Gymraeg, mae'r holl wybodaeth sydd ar gael i rieni ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Hyrwyddir y cynnig lleol o wasanaethau a darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eang. Mae'r ddogfen Pam dewis addysg Gymraeg a ddatblygwyd gan Fforwm Cynllun Strategol Y Gymraeg, yn cynnig gwybodaeth am y model trochi o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ogystal â manteision dull dwyieithog ac amlieithog. Mae'r daflen wybodaeth Pam dewis addysg Gymraeg ar gael yn eang. Fodd bynnag, mae pwyslais amlwg ar fanteision llwyr y dull trochi a'r manteision amlwg y gall addysg a phrofiad cwbl Gymraeg eu cynnig yn amlwg iawn yn y ddogfen. Mae cynlluniau ar y gweill i adeiladu ar yr wybodaeth yn y ddogfen Pam dewis addysg Gymraeg trwy fersiwn wedi ei hanimeiddio. Bydd hon yn adeiladu ar y cynnwys gwybodaeth sydd ar gael i rieni/gofalwyr ac yn gwella'r ansawdd.

## 1.7

Mae'r swyddog Cymraeg i Blant yn cynnal y **sesiynau Rhieni a babanod** wythnosol canlynol ym mhob ardal:

- Grŵp Arwyddo, Stori a Chân;
- Tylino babi a grŵp ioga;
- Paned a Sgwrs Gymraeg (grŵp ar-lein);

- Sesiynau Fi a fy Mabi sy'n esbonio'r daith ddwyieithog yn fanwl (grŵp ar-lein).

Hysbysebir y grwpiau fel rhai sy'n agored i bawb, nid oes angen i rieni allu siarad Cymraeg. Bydd y swyddog yn cyflwyno rhigymau ac ymadroddion Cymraeg syml yn wythnosol i'w helpu i ddysgu gwybodaeth sylfaenol yn ogystal â'u helpu i gynyddu eu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg gartref. Caiff y grwpiau eu hysbysebu ar dudalennau Cymraeg i Blant lleol ar Facebook ac Instagram a thrwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd/Dewis Cymru, timau blynyddoedd cynnar, hybiau a chanolfannau cymunedol lleol, llyfrgelloedd, Mentrau Iaith, partneriaeth Cwlwm ac yn ehangach. Mae Cymraeg i Blant hefyd yn gweithio'n agos gyda'r timau Bydwreigiaeth ac Ymwelwyr Iechyd cyffredinol a Dechrau'n Deg lleol ac yn darparu hyfforddiant a gweithdai ar fanteision dwyieithrwydd cynnar er mwyn eu helpu i gefnogi a chyfeirio rhieni i'n grwpiau lleol. Maent yn noddi ffolder nodiadau Mamolaeth Cymru Gyfan, y cerdyn sganio a'r llyfr Cofnodion Iechyd Plant, ac mae'r holl fyfyrwyr bydwreigiaeth ac Ymwelwyr Iechyd ledled Cymru yn cael cyflwyniad/gweithdy ar fanteision dwyieithrwydd cynnar a swyddogaeth Cymraeg i Blant yn ystod blwyddyn gyntaf eu hyfforddiant. Rhennir yr wybodaeth ganlynol â'r rhai hynny sy'n dod i'r grwpiau:

- sut y gall siarad neu gyflwyno'r Gymraeg roi rhagor o gyfleoedd i'w plentyn;
- sut i ddefnyddio arwyddo, tylino baban a ioga i gyfathrebu â'u baban;
- sut i gael gafael ar lyfrau, e-lyfrau ac apiau Cymraeg a dwyieithog;
- sut i gael gafael ar gyrsiau Dysgu Cymraeg lleol (h.y. cwrs wyth wythnos am ddim Clwb Cwtsh i ddysgwyr, a ddilynir gan sesiynau ymarfer wythnosol Paned a Sgwrs Cymraeg i Blant);
- sut i ddod o hyd i'w grŵp Ti a Fi lleol ar ôl dod i'n grwpiau, a sut i gofrestru â'r Cylch Meithrin ac â'u hysgol cyfrwng Cymraeg leol.

Rhestr o ddeunyddiau hyrwyddo a rennir â darpar rieni a rhieni newydd:

**Llyfryn Bod yn ddwyieithog lleol**

**Dy ganllaw i addysg cyfrwng Cymraeg**

**Taflen wybodaeth taith ddwyieithog**

## Ceir rhagor o wybodaeth yn Meithrin.cymru

## 1.8

Mae perthnasoedd effeithiol wedi eu sefydlu gyda chydweithwyr o Mudiad Meithrin. Mae'r bartneriaeth effeithiol hon yn galluogi ac yn cefnogi targedau ar y cyd ynghylch datblygu darpariaeth blynyddoedd cynnar a gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae’r ddau wasanaeth wedi gweithio’n agos iawn mewn cysylltiad â datblygu hybiau gofal plant cyfrwng Cymraeg yr ydym yn eu galw’ganolfannau Cymraeg 2050.

Mae gan yr awdurdod lleol nifer o grantiau ar waith sy’n gysylltiedig â datblygu darpariaeth newydd ochr yn ochr â phecynnau cymorth Mudiad Meithrin. Archwilir cyfleoedd i ddatblygu ar y cyd a dangosir hyn drwy ddatblygiad grwpiau Ti a Fi, lle mae’r awdurdod lleol, ysgol leol a Mudiad Meithrin wedi dod at ei gilydd i ddatblygu hyn ar y cyd.

## 1.9

Mae darpariaeth Dechrau’n Deg ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn gweithio’n agos gyda’r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg bresennol. Mae hyn yn cynnig cynaliadwyedd ar gyfer y lleoliadau cylch meithrin. Darperir lleoedd Dechrau’n Deg mewn partneriaeth â’r Cylch Meithrin yn yr ardaloedd canlynol:

- Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg Afon y Felin ar gael yng Nghylch Meithrin y Sgêr;
- Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg Sarn ar gael yng Nghylch Meithrin Plant Bach Sarn;
- Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg Plasnewydd ar gael yng Nghylch Meithrin Cynwyd Sant;
- Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg Garth ar gael yng Nghylch Meithrin Cynwyd Sant.

Yng Nghaerau, mae gan Dechrau’n Deg ddarpariaeth annibynnol ar waith yn Dechrau’n Deg Blaenllynfi. Ym Mracla, bydd lleoliad Dechrau’n Deg yn cynnig 50% (16 o leoedd) o’r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg o fis Ionawr 2022. Bydd datblygiadau Cymraeg 2050 hefyd yn gallu cynnig darpariaeth Dechrau’n Deg yn Lewistown, Melin Ifan Ddu, Betws a Bracla.

- Mae 312 o leoedd cyfrwng Saesneg ar gael yn y rhaglen Dechrau’n Deg;
- Mae 77 o leoedd cyfrwng Cymraeg ar gael yn y rhaglen Dechrau’n Deg;
- Mae 19% o’r lleoedd Dechrau’n Deg ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd y nifer hwn yn cynyddu ym mis Ionawr 2022 gyda’r gostyngiad o 16 o leoedd cyfrwng Saesneg yn Dechrau’n Deg Bracla, sef y cynnydd mewn lleoedd cyfrwng Cymraeg wrth symud ymlaen. Bydd hyn yn cynyddu canran y lleoedd sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg i 24%.

## 1.10

Mae proses effeithiol o rannu gwybodaeth am wasanaethau a gynigir gan Cymraeg i Blant a Mudiad Meithrin ar waith a rhennir gwybodaeth yn eang ac mewn modd brwdfrydig. Ar hyn o bryd, mae Mudiad Meithrin yn edrych ar wefannau’r awdurdod

lleol yn y de-ddwyrain er mwyn ystyried pa mor hygyrch yw'r wybodaeth i rieni. Bydd yr wybodaeth hon ar gael i'w rhannu yn nhymor yr hydref 2021.

Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn cydnabod y bydd yr wybodaeth sydd ar gael drwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn elwa ar adolygiad a chynnydd. Rhennir gwybodaeth i ddysgwyr Cymraeg yn eang ar holl lwyfannau cyfathrebu digidol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, gan gynnwys tudalen Facebook y Blynyddoedd Cynnar. Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn cydnabod y bydd y maes hwn yn elwa ar adolygiad a'r gallu i sicrhau bod gwybodaeth yn arloesol ac yn flaengar.

## 1.11

Gweithiodd Pen-y-bont ar Ogwr yn agos (2019) ar asesu sgiliau a hyder ymarferwyr gofal plant o ran eu defnydd o'r Gymraeg, a chynigiodd hyfforddiant i godi safonau a sgiliau yn seiliedig ar ganfyddiadau'r offeryn asesu a ddefnyddiwyd.

## 1.12

Mae gwybodaeth ar wefan y Cyngor yn darparu gwybodaeth am ddarpariaeth yn y sector cyfrwng Cymraeg ac ysgolion ffydd. Bu trafodaethau parhaus ynghylch datblygu dalgylchoedd ysgolion Cymraeg mwy penodol.

## 1.13

Mae'r ymrwymiad i'r Cynllun Strategol a'i uchelgeisiau ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr yn rhedeg ar draws y gwasanaeth blynyddoedd cynnar. Anogir aelodau'r tîm i fod yn wybodus, er mwyn galluogi rhieni i gael gwybodaeth gywir ac effeithiol. Mae'r staff sy'n darparu'r wybodaeth hon yn wybodus, ond maent hefyd yn gallu gofyn am gymorth ehangach yn ôl y galw. Gall staff bob amser elwa ar wybodaeth well, fodd bynnag, mae'r gwasanaeth blynyddoedd cynnar yn hyderus bod rhieni'n gallu cael gwybodaeth gywir yn effeithiol ac yn amserol. Mae gan y gwasanaeth blynyddoedd cynnar aelod o'r tîm sy'n gallu trafod y mater hwn â rhieni drwy gyfrwng y Gymraeg.

## 1.14

Darperir Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd drwy Dîm Gwasanaethau Cwsmeriaid Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Os bydd y tîm hwn o'r farn y bydd gwybodaeth fanylach am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ddefnyddiol, bydd yn cyfeirio rhieni a gofalwyr i'r gwasanaeth perthnasol naill ai yn y tîm derbyniadau ysgolion ac addysg neu yn y Tîm Gofal Plant. Mae'r gwasanaethau blynyddoedd cynnar yn gofyn am safbwyntiau rhieni'n rheolaidd, gan ganolbwyntio ar sicrhau yr ymatebir i safbwyntiau a phryderon rhieni yn effeithiol ac yn barhaus.

## 1.15

Mae Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn agosáu at drothwy capasiti o lai na 10% ac felly yn ystod pum mlynedd gyntaf y cynllun, mae'r awdurdod lleol yn ceisio cynyddu'r lleoedd ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol a fydd yn gwasanaethu ardaloedd Porth y Cymoedd, Pen-y-bont ar Ogwr a Phencoed y fwrdeistref sirol drwy

ehangu ac adleoli Ysgol Gymraeg Bro Ogwr i safle arall gerllaw. O ganlyniad i hynny, bydd 90 o leoedd meithrin ar gael i blant tair oed.

## Ble'r ydym yn bwriadu bod ar ôl pum mlynedd gyntaf y cynllun hwn a sut yr ydym yn bwriadu cyrraedd yno?

### 1.16
Mae'r uchelgais o gynyddu'r ffigur hwn i 14-18% yn effeithiol.

### 1.17
Ar ddiwedd pum mlynedd gyntaf y cynllun, bydd darpariaeth ychwanegol i blant tair oed ar gael yn yr ysgolion canlynol:

**Ysgol Gymraeg Bro Ogwr**

- Mae'r awdurdod lleol yn ceisio cynyddu'r lleoedd ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg er mwyn gwasanaethu ardaloedd Porth y Cymoedd, Pen-y-bont ar Ogwr a Phencoed y fwrdeistref sirol drwy ehangu ac adleoli Ysgol Gymraeg Bro Ogwr i safle arall cyfagos.
- Bydd 90 o leoedd ar gael i blant tair oed.
- Bydd y cynnig yn ddarostyngedig i broses ymgynghori o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion yn ystod blwyddyn ysgol 2021-2022.
- Bydd yr ysgol yn cael ei chyllido gan Raglen Ysgolion a Cholegau yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru ynghyd â chyllid cyfalaf Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
- Os caiff ei chymeradwyo, disgwylir i'r ysgol newydd agor ym mis Medi 2025.

**Ysgol Y Ferch O'r Sgêr**

- Bydd Ysgol y Ferch O'r Sgêr yn cael ei hehangu i fod yn ysgol dau ddosbarth mynediad
- Bydd 60 o leoedd ar gael i blant tair oed.
- Mae'r cynnig eisoes wedi bod yn ddarostyngedig i broses ymgynghori o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion a derbyniwyd cymeradwyaeth gan y Cabinet.
- Wedi ei hariannu'n rhannol gan gyllid Model Buddsoddi Cydfuddiannol refeniw Llywodraeth Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, bydd yr ysgol ehangach yn gwasanaethu gorllewin y fwrdeistref sirol.
- Bwriedir i'r ysgol newydd agor ym mis Medi 2024.

**Porthcawl**

Hefyd, mae dyhead i greu ysgol egin cyfrwng Cymraeg i wasanaethu ardal Porthcawl. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gyllid wedi ei ddyrannu ar gyfer y cynllun. Fodd bynnag, gwnaed cais i'r Cabinet roi cymeradwyaeth i gyflwyno datganiad o ddiddordeb i Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad â'r cyllid grant cyfalaf cyfrwng Cymraeg. Os bydd yn llwyddiannus, byddai 30 o leoedd ychwanegol ar gyfer plant tair oed.

## 1.18

Mae datblygiadau newydd hybiau gofal plant cyfrwng Cymraeg yr ydym yn eu galw'n ganolfannau Cymraeg 2050 yn mynd rhagddynt. Disgwylir i'r prosiect ym Metws gael ei gwblhau ym mis Mehefin 2022, a disgwylir y bydd cynllun Cwm Ogwr wedi ei gwblhau erbyn mis Medi 2022. Mae dau brosiect gofal plant cyfrwng Cymraeg arall wedi eu cynllunio ar gyfer y Fwrdeistref Sirol. Mae darpariaeth Tref Pen-y-bont ar Ogwr wedi ei halinio â phrosiect Gogledd-ddwyrain Pen-y-bont ar Ogwr, yn rhan o Fand B y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion. Bydd y ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg hon yn rhan annatod o'r ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gymraeg (YG) Bro Ogwr. Disgwylir y bydd prosiect Gogledd-ddwyrain Pen-y-bont ar Ogwr wedi ei gwblhau erbyn mis Medi 2025. Yn y cyfamser, mae cynlluniau i gynnig lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg ychwanegol yn lleoliad Dechrau'n Deg Bracla. Penderfynir ar y llinell amser ar gyfer y prosiect gofal plant cyfrwng Cymraeg sy'n weddill a gynlluniwyd ar gyfer Porthcawl yn dilyn cam dichonoldeb y prosiect.

## 1.19

Nod y prosiect yw darparu 16 o leoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg sesiynol, ynghyd â 6 lle ar gyfer darpariaeth 0 i 2 a darpariaeth gofleidiol/y tu allan i'r ysgol, a fyddai'n gweithredu 52 wythnos y flwyddyn ym mhob un o'r pedwar lleoliad. Bydd hyn yn cynnig potensial i'r awdurdod lleol allu darparu 176 o sesiynau sesiynol cyfrwng Cymraeg ychwanegol. Yn dilyn yr uchod, mae Tîm Gofal Plant Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i weithio gyda nifer o leoliadau ynglŷn â'r datblygiad tuag at fod yn ddarparwr addysg feithrin nas cynhelir. Bydd hyn yn cynnwys y darpariaethau newydd Cymraeg 2050 a'r darpariaethau Cylch Meithrin hynny nad ydynt wedi cofrestru ar gyfer y cynnig hwn ar hyn o bryd (tri darpar ddarparwr).

## 1.20

Mae Mudiad Meithrin yn gweithio gyda chwmni o'r enw "Flourish" er mwyn agor Cylch Meithrin yng nghanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr. Disgwylir y bydd yn agor ym mis Ionawr 2022.

## 1.21

Rhannu gwybodaeth am y daith ddwyieithog â rhieni cyn gynted â phosibl er mwyn creu'r galw o'r cryd drwy:

- ffurfio cysylltiadau cryfach â'r Bwrdd Iechyd lleol – pob rhiant newydd i gael gwybodaeth am y daith ddwyieithog wrth adael yr ysbyty;
- Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd – parhau i rannu gwybodaeth am grwpiau Cymraeg i Blant dwyieithog am ddim â rhieni newydd – gan eu gwneud yn ymwybodol nad oes rhaid iddynt siarad Cymraeg i fynd;
- rhannu gwybodaeth hanfodol am y daith ddwyieithog wrth gofrestru genedigaethau plant.

### 1.22

Rhannu negeseuon dwyieithog allweddol ar sianeli cyfryngau cymdeithasol/ymgyrchoedd postio y Cyngor i gyd-fynd â cheisiadau am leoedd meithrin/ysgol. Sicrhau bod y cynnig cyfrwng Cymraeg yn gynnig i bob rhiant – sicrhau bod holl staff y blynyddoedd cynnar a thimau Dechrau'n Deg lleol yn gyfarwydd â strategaeth #Cymraeg2050 a'u bod yn hyderus wrth rannu gwybodaeth leol â'u holl grwpiau magu plant. Hyrwyddo'r cynnig cyfrwng Cymraeg ochr yn ochr â digwyddiadau/ hyrwyddiadau eraill y Cyngor h.y. cynigion gofal plant, diwrnodau hwyl mewn canolfannau neu hybiau cymunedol lleol.

## Ble'r ydym ni'n disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

### 1.23

Bu llawer i'w ystyried wrth gynllunio am gyfnod deng mlynedd, mae'r blynyddoedd cynnar yn dal i fod mewn cyfnod o adferiad yn sgil effaith y pandemig. Mae'r gwasanaeth yn datblygu Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr ac mae'n rhaid i'r datblygiadau yn y ddogfen Cynllun Strategol hon gyd-fynd yn ofalus â'r Asesiad Digonolrwydd er mwyn sicrhau bod yn rhaid i'r holl ddatblygiadau yn y sector blynyddoedd cynnar ddigwydd drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal er mwyn i nifer y lleoedd fod yn deg yn y ddwy iaith, ond hefyd fel bod rhieni'n gallu ystyried y ddau gyfrwng wrth ystyried darpariaeth ar gyfer eu plentyn.

### 1.24

Mae pedwar lleoliad Cymraeg 2050 newydd wedi eu cynllunio i gynnig cyfleoedd gofal dydd llawn drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hwn yn faes a amlygir fel bwlch yn yr Asesiad Digonolrwydd ac mae'n rhan annatod o'r rhaglen a gynlluniwyd.

### 1.25

Yn ogystal â'r ddarpariaeth addysg a ddarperir yn ystod y pum mlynedd gyntaf, bwriedir cyflawni'r prosiectau canlynol erbyn diwedd cyfnod deng mlynedd y cynllun:

- Ysgol dderbyn dwy ffrwd, dau ddosbarth mynediad ym Mharc Afon Ewenni (os cytunir ar y safle hwnnw yn y Cynllun Datblygu Lleol nesaf) (h.y. 30 o leoedd cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant tair oed)
- Ysgol un dosbarth mynediad ym Mhorthcawl (h.y. 30 o leoedd ar gyfer plant tair oed)

Hefyd, mae'r awdurdod lleol yn ymgymryd â phroses arfarnu dewisiadau er mwyn creu darpariaeth un dosbarth mynediad ychwanegol sy'n ganolog i ardal Pen-y-bont ar Ogwr (h.y. 30 o leoedd ar gyfer plant tair oed).

## Data Allweddol

Cyfrifwyd yr amcanestyniadau blynyddol canlynol drwy ddefnyddio'r data sylfaenol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru (h.y. 2019-2020) a'u cynyddu'n raddol yn unol â'r niferoedd disgwyliedig i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg a'r lleoedd ychwanegol arfaethedig a fydd ar gael i ddisgyblion yn ystod cyfnod y cynllun 10 mlynedd, fel y rhaglennwyd.

Mae'r targed 2031-2032 o 255 o ddysgwyr meithrin llawn-amser 3-4 oed (h.y. 16.29%), rhwng y targed ystod isaf ac uchaf (h.y. 14%-18%). Mae nifer y dysgwyr 2-3 oed rhan-amser yn amrywio'n flynyddol oherwydd bod nifer y lleoedd sydd ar gael yn dibynnu ar y nifer sy'n manteisio ar leoedd llawn-amser. Felly mae'r dysgwyr hynny wedi eu heithrio o'r cyfrifiad. Mae'r targed man canol o 16.29% yn un uchelgeisiol. Fodd bynnag, ystyrir ei fod yn gyflawnadwy, os bydd yr holl ganlyniadau y gellid eu cyflawni yn y cynllun yn cael eu gwireddu.

<table>
<tr><th colspan="10">Numbers and % of 3-year olds provisioned to receive their education through the medium of Welsh</th></tr>
<tr><td colspan="2">2022 - 2023</td><td colspan="2">2023 - 2024</td><td colspan="2">2024 – 2025</td><td colspan="2">2025 – 2026</td><td colspan="2">2026 - 2027</td></tr>
<tr><td>150</td><td>9.58%</td><td>150</td><td>9.58%</td><td>170</td><td>10.86%</td><td>180</td><td>11.50%</td><td>185</td><td>11.82%</td></tr>
<tr><td colspan="2">2027 - 2028</td><td colspan="2">2028 - 2029</td><td colspan="2">2029 – 2030</td><td colspan="2">2030 – 2031</td><td colspan="2">2031 – 2032</td></tr>
<tr><td>190</td><td>12.14%</td><td>210</td><td>13.42%</td><td>230</td><td>14.70%</td><td>245</td><td>15.65%</td><td>255</td><td>16.29%</td></tr>
</table>

# Deilliant 2

# Mae mwy o blant dosbarth derbyn/ pum mlwydd oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

## Y sefyllfa bresennol?

### 2.1

Ar hyn o bryd yn ein hysgolion cyfrwng-Cymraeg, ceir 162 o leoedd disgyblion sydd ar gael i ddysgwyr oedran derbyn. Mae'r awdurdod lleol wedi gosod targed o ddarparu 300 o leoedd derbyn sydd ar gael i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg erbyn diwedd cyfnod y cynllun. Mae'r 300 o leoedd derbyn yn cyfateb i 10 dosbarth mynediad, a'r nod yw sicrhau bod y lleoedd hynny yn cael eu llenwi.

Bydd cyfleoedd cyllid grantiau gan Lywodraeth Cymru yn cael eu defnyddio i'r eithaf er mwyn cefnogi'r cynnydd a dargedir i ddarpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg.

Bydd yr awdurdod lleol hefyd yn parhau i archwilio cyfleoedd posibl i ddarparu cynlluniau penodol drwy adran 106, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, i gyfrannu at leoedd addysg er mwyn gwasanaethu datblygiadau tai newydd, fel y bo'n berthnasol.

Yn 2020-2021, roedd 162 o leoedd dosbarth derbyn cyfrwng Cymraeg ac fe'u dosbarthwyd fel a ganlyn:

| **Ysgolion cyfrwng Cymru** | **Maint** |
|---|---|
| Ysgol Gymraeg Bro Ogwr | 54 |
| Ysgol Cynwyd Sant | 45 |
| Ysgol Gynradd Gymraeg (YGG) Calon Y Cymoedd | 30 |
| Ysgol Y Ferch O'r Sgêr | 33 |

Ym mis Ionawr 2019, yn ystod cyfnod y cynllun diwethaf, symudodd YGG Calon y Cymoedd (a elwid gynt yn Ysgol Gynradd Gymraeg (YGG) Cwm Garw) i ysgol newydd mewn ardal a ystyrir yn lleoliad canolog i wasanaethu Cymoedd Garw ac Ogwr.

Er nad yw nifer derbyn cyhoeddedig YGG Calon y Cymoedd wedi newid, cynyddodd nifer y lleoedd dosbarth derbyn y manteisiwyd arnynt.

Mae'r tabl canlynol yn nodi cyfanswm y dysgwyr oed derbyn o fis Ionawr 2018 – 2021:

| Ionawr 2018 | Ionawr 2019 | Ionawr 2020 | Ionawr 2021 |
|---|---|---|---|
| 129 | 121 | 122 | 140 |

Ar gyfartaledd, dros gyfnod y cynllun diwethaf, llanwyd 79% o’r 162 o leoedd derbyn cyfrwng Cymraeg a oedd ar gael.

Mae’r galw am leoedd cyfrwng Cymraeg wedi bod yn fwy cyffredin yn ardal de-ddwyrain y fwrdeistref sirol.

Ar hyn o bryd, mae ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a’r ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn rheoli eu dysgwyr sy’n hwyrddyfodiaid eu hunain. Mae pob ysgol yn darparu gwybodaeth a chanllawiau i rieni a gofalwyr ar gais.

Bydd yr awdurdod lleol yn datblygu dogfen bolisi gyffredinol ar gyfer hwyrddyfodiaid a fydd yn helpu ysgolion, rhieni a gofalwyr. Bydd y ddogfen yn manylu ar y cyfleoedd i hwyrddyfodiaid, yn darparu canllawiau, gweithdrefnau, cyfrifoldeb ac atebolrwydd.

Caiff y ddogfen bolisi ei drafftio a’i mabwysiadu yn ystod blwyddyn gyntaf cyfnod y cynllun.

### Dysgwyr sy’n Teithio

Yn achos addysg cyfrwng Cymraeg, mae’r awdurdod lleol yn cynnig cludiant am ddim rhwng y cartref a’r ysgol pan fo’r pellter cerdded o’r cartref i’r ysgol yn ddwy filltir neu fwy ar gyfer plant oed cynradd, a thair milltir neu fwy ar gyfer disgyblion uwchradd. Os bydd unrhyw ddisgybl na ellir darparu ar ei gyfer yn ei ysgol cyfrwng Cymraeg leol, bydd lle yn yr ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf nesaf ym Mhen-y-bont ar Ogwr, os gofynnir am hynny. Mae hyn yn cynnwys darparu cludiant am ddim o’r cartref i’r ysgol yn ddarostyngedig i’r trothwyon pellter a nodir uchod.

## Ble’r ydym yn bwriadu bod ar ôl 5 mlynedd gyntaf y Cynllun hwn a sut yr ydym yn bwriadu cyrraedd yno?

### 2.2

Ysgol Gymraeg Bro Ogwr

- Yn ystod pum mlynedd gyntaf y cynllun, mae'r awdurdod lleol yn ceisio cynyddu'r lleoedd ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg er mwyn gwasanaethu ardaloedd Porth y Cymoedd, Pen-y-bont ar Ogwr a Phencoed y fwrdeistref sirol drwy ehangu ac adleoli Ysgol Gymraeg Bro Ogwr i safle arall cyfagos.
- 75 fydd y nifer derbyn cyhoeddedig newydd (h.y. 2.5 dosbarth mynediad).
- Bydd y cynnig yn ddarostyngedig i broses ymgynghori o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion yn ystod blwyddyn academaidd 2021-2022.
- Bydd yr ysgol yn cael ei chyllido gan Raglen Ysgolion a Cholegau yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru ynghyd â chyllid cyfalaf Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
- Os caiff ei chymeradwyo, disgwylir i'r ysgol newydd agor ym mis Medi 2025.

Ysgol Y Ferch O'r Sgêr

- Bydd Ysgol y Ferch O'r Sgêr yn cael ei hehangu o'i nifer derbyn cyhoeddedig presennol o 30 i 60.
- Mae'r cynnig eisoes wedi bod yn ddarostyngedig i broses ymgynghori o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion a derbyniwyd cymeradwyaeth gan y Cabinet.
- Wedi ei hariannu'n rhannol gan gyllid Model Buddsoddi Cydfuddiannol refeniw Llywodraeth Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, bydd yr ysgol ehangach yn gwasanaethu gorllewin y fwrdeistref sirol.
- Bwriedir i'r ysgol newydd agor ym mis Medi 2024.

Bydd y prosiectau uchod yn arwain at gynnydd i gyfanswm y lleoedd disgyblion ar gyfer dysgwyr derbyn cyfrwng Cymraeg o 162 o leoedd disgyblion i 210 (h.y. 7 dosbarth mynediad) erbyn diwedd y pum mlynedd gyntaf ar ôl rhoi'r cynllun ar waith.

## 2.3 Porthcawl

Hefyd, mae dyhead i greu ysgol egin cyfrwng Cymraeg i wasanaethu ardal Porthcawl.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gyllid wedi ei ddyrannu ar gyfer y cynllun. Fodd bynnag, gwnaed cais i'r Cabinet roi cymeradwyaeth i gyflwyno datganiad o ddiddordeb i Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad â'r cyllid grant cyfalaf cyfrwng Cymraeg.

Byddai'r cynllun hwn yn cysylltu'n hanfodol â chynnig tymor hwy i greu ysgol un dosbarth mynediad newydd ym Mhorthcawl.

## 2.4

Bydd Consortiwm Canolbarth y De yn darparu dysgu proffesiynol ac adnoddau i athrawon mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ar y ffordd orau o gefnogi hwyrddyfodiaid. Bydd y Consortiwm yn hwyluso'r gwaith o rannu arferion da ar draws y rhanbarth yn y maes hwn mewn cydweithrediad ag Uned Drochi'r Gymraeg bresennol yng Nghaerdydd ac unrhyw ddarpariaeth arall sy'n dod i'r amlwg wrth symud ymlaen. Bydd Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg yn parhau i ddarparu cymorth pwrpasol i ysgolion unigolion neu grwpiau o ysgolion.

## 2.5

Bydd cynllun hyrwyddo sy'n ystyried ac yn mynd i'r afael â'r canlynol yn cael ei drafod a'i ddatblygu:

- y rhwystrau i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg;
- hygyrchedd; ac
- agosrwydd y ddarpariaeth.

Bydd y cynllun yn cwmpasu dwy elfen. Sef, hyrwyddo corfforaethol a'r cymorth y gall yr awdurdod lleol ei roi i ysgolion unigol ar lefel leol. Bydd y cynllun hyrwyddo yn dangos bod addysg cyfrwng Cymraeg i bawb. Bydd yn cynnwys templed ac adnoddau y gellir eu rhannu â'r gymuned leol a bydd hefyd yn cael ei rannu drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

## 2.6

Bydd yr wybodaeth am addysg cyfrwng Cymraeg sydd wedi'i chynnwys ar wefan yr awdurdod lleol yn cael ei hadolygu er mwyn sicrhau bod rhieni sy'n gwneud cais am leoedd yn gallu mynd i'r tudalennau cywir yn rhwydd a dod o hyd i wybodaeth berthnasol.

## 2.7

Bydd yr awdurdod lleol yn gweithio gyda Chonsortiwm Canolbarth y De i gefnogi ysgolion cyfrwng Saesneg i ddatblygu eu gweithluoedd a chynnig prentisiaethau.

## 2.8

Bydd Consortiwm Canolbarth y De yn hwyluso'r gwaith o rannu arferion da ar draws y rhanbarth yn y maes hwn mewn cydweithrediad ag Uned Drochi'r Gymraeg bresennol yng Nghaerdydd ac unrhyw ddarpariaeth arall sy'n dod i'r amlwg wrth symud ymlaen. Bydd Swyddogion y Gymraeg mewn Addysg yn parhau i ddarparu cymorth pwrpasol i ysgolion unigolion neu grwpiau o ysgolion.

## 2.9

Bydd yr awdurdod lleol yn ystyried cydweithredu ag awdurdodau lleol eraill o ran darpariaeth Uned Drochi Iaith. Cynllunnir y gwaith hwn yn strategol dros gyfnod o amser gyda'r nod o gynyddu canran y Gymraeg a addysgir mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, a wneir drwy dargedu cyfranogwyr a thrwy ddarparu'r cymorth angenrheidiol i ysgolion unigol.

## 2.10

Cydnabyddir bod angen datblygu dwyieithrwydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Ystyrir sut y mae awdurdodau lleol eraill yn pontio o siarad Saesneg i'r Gymraeg. Mae angen sicrhau hefyd fod yr iaith a siaredir yn y gymuned o lefel uchel er mwyn cynnal y dysgwyr y tu allan i'r ysgol, ac ar hyn o bryd, nid yw hyn ar gael yn yr ardal ddaearyddol hon.

# Ble'r ydym ni'n disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

## 2.11

Mae'r targed o 300 o leoedd yn berthnasol i bob grŵp blwyddyn cynradd. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau dilyniant mewn addysg. Trwy gynyddu nifer y lleoedd derbyn o 162 i 300, mae'n rhesymol tybio y bydd y mwyafrif llethol o'r dysgwyr hynny'n trosglwyddo i Flwyddyn 1 ac felly, mae'n rhaid i'r targed ar gyfer y ddau grŵp blwyddyn gyfateb.

## 2.12

Fel y nodir yn 2.1, bydd yr awdurdod lleol yn parhau i geisio cyfleoedd cyllid grant ar gyfer prosiectau adeiladu cyfalaf gan Weinidogion Cymru. Bydd achosion busnes yn gadarn a byddant yn dangos yn glir yr angen am fuddsoddiad mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

## 2.13

Yn ogystal â'r saith dosbarth mynediad a gyflwynir yn ystod Band B, fel yr amlinellwyd, ceir ymrwymiad gan y Cabinet i ddarparu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ganlynol yn ystod cam nesaf y rhaglen, sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 10 mlynedd:

- Ysgol un dosbarth mynediad ym Mhorthcawl (h.y. nifer derbyn cyhoeddedig o 30)

- Ysgol dwy ffrwd, dau ddosbarth derbyn ym Mharc Afon Ewenni (os cytunir ar y safle hwnnw yn y Cynllun Datblygu Lleol nesaf) (h.y. nifer derbyn cyhoeddedig o 30 ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg)

Hefyd, mae’r awdurdod lleol yn ymgymryd â phroses arfarnu dewisiadau er mwyn creu darpariaeth un dosbarth mynediad ychwanegol sy’n ganolog i ardal Pen-y-bont ar Ogwr (h.y. nifer derbyn cyhoeddedig o 30).

## 2.14

Yn amodol ar gyllid ac os bydd y cynigion a nodir yn dwyn ffrwyth, ar ddiwedd cyfnod y cynllun 10 mlynedd, bydd 10 dosbarth mynediad ar lefel ysgol gynradd, a fydd felly yn cynyddu nifer y lleoedd ar gyfer dysgwyr oedran derbyn o 162 i 300.

## 2.15

Bydd yr awdurdod lleol wedi datblygu dogfen bolisi gyffredinol ar gyfer hwyrddyfodiaid a fydd yn helpu ysgolion, rhieni a gofalwyr. Bydd y ddogfen yn nodi’r cyfleoedd i hwyrddyfodiaid, yn darparu canllawiau, gweithdrefnau, cyfrifoldeb ac atebolrwydd.

## 2.16

Bydd yr awdurdod lleol yn sicrhau bod darpariaeth drochi Cymraeg ar gael i hwyrddyfodiaid fel y gall dysgwyr ddod yn rhugl yn y Gymraeg a mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg prif ffrwd. Ystyrir y gofynion ar gyfer sefydlu’r uned yn ystod cyfnod y cynllun, ac yn y tymor byr, bydd mesurau amgen dros dro yn cael eu rhoi ar waith (h.y. cyllido ysgolion ar gyfer cymorth ychwanegol i hwyrddyfodiaid a/neu gydweithrediad ag awdurdodau eraill lle mae unedau trochi eisoes wedi eu sefydlu).

## Data Allweddol

| Niferoedd a % y plant 5 oed a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022 – 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 – 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
| 140 | 8.94% | 150 | 9.58% | 160 | 10.22% | 170 | 10.86% | 190 | 12.14% |
| 2027 – 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 – 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| 200 | 12.78% | 205 | 13.10% | 235 | 15.02% | 250 | 15.97% | 265 | 16.93% |

## 2.17

Cyfrifwyd yr amcanestyniadau blynyddol canlynol drwy ddefnyddio’r data sylfaenol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru (h.y. 2019-2020) a’u cynyddu’n raddol yn unol â’r niferoedd disgwyliedig i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg a’r lleoedd ychwanegol arfaethedig a fydd ar gael i ddisgyblion yn ystod cyfnod y cynllun 10 mlynedd, fel y rhaglennwyd.

## 2.18

Mae targed 2031-2032, sef 265 o ddisgyblion derbyn (h.y. 16.93%), rhwng y targed ystod isaf ac uchaf (h.y. 14%-18%). Pe byddai pob un o’r 300 o leoedd arfaethedig ar gyfer disgyblion yn cael eu llenwi, byddai hyn yn arwain at 19.16% o ddisgyblion oedran derbyn yn cael addysg cyfrwng Cymraeg. Mae’r targed man canol o 16.93% yn un uchelgeisiol. Fodd bynnag, ystyrir ei fod yn gyflawnadwy, os bydd yr holl ganlyniadau y gellid eu cyflawni yn y cynllun yn cael eu gwireddu.

## Deilliant 3

## Mae mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod addysg statudol i un arall

### Y sefyllfa bresennol?

3.1

**Mae'r tabl data isod yn olrhain nifer y disgyblion sy'n trosglwyddo o un flwyddyn ym Mlwyddyn 6 i Flwyddyn 7 y flwyddyn ganlynol.  Er ei fod yn dangos gostyngiad yn y niferoedd o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7 bob blwyddyn, mae'n galonogol bod y 'gollyngiad' wedi gostwng ers 2017.**

| | Disgyblion Blwyddyn 6 mewn Ysgolion Cynradd Cymraeg | Disgyblion Blwyddyn 7 YGG Llangynwyd | Canran y cynnydd/gostyngiad |
|---|---|---|---|
| 2016 | 122 | | |
| 2017 | 119 | 110 | -9.84 |
| 2018 | 110 | 114 | -4.2 |
| 2019 | 131 | 106 | -3.64 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2020 | 113 | 125 | -4.58 |
| 2021 | | 112 | 0.88 |

Braf yw nodi’r twf a welwyd mewn niferoedd ar ôl agor ysgol newydd YGG Calon y Cymoedd (a agorwyd ym mis Ionawr 2019) (YGG Cwm Garw gynt). Gweler y tabl isod.

Data CYBLD Pob Disgybl YGG Cwm Garw/YGG Calon y Cymoedd (a agorwyd ym mis Ionawr 2019*)

| | Meithrin | Derbyn | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Blwyddyn 6 | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2015 | 31 | 13 | 23 | 21 | 17 | 18 | 18 | 13 | 154 | |
| 2016 | 23 | 31 | 15 | 21 | 20 | 17 | 17 | 18 | 162 | 5% |
| 2017 | 20 | 21 | 29 | 14 | 21 | 17 | 15 | 17 | 154 | -5% |
| 2018 | 31 | 20 | 18 | 26 | 13 | 20 | 16 | 12 | 156 | 1% |
| 2019* | 27 | 28 | 21 | 20 | 28 | 14 | 20 | 15 | 173 | 11% |
| 2020 | 35 | 23 | 29 | 23 | 21 | 30 | 13 | 20 | 194 | 12% |
| 2021 | 35 | 30 | 25 | 30 | 28 | 22 | 29 | 14 | 213 | 9.7% |

## Cyfran cyfrwng Cymraeg y garfan gyfan ar gyfer Blwyddyn 3

DISGYBLION BLWYDDYN 3 (7-8 oed) *ac eithrio ysgolion arbennig, ac eithrio cofrestriadau deuol

| Blwyddyn CYBLD (Ionawr) | YBO | YCG/CYC (**Agorwyd CyC ym mis Ionawr 2019) | YCS | YFOS | CYFANSWM Carfan blwyddyn 3 cyfrwng Cymraeg | Carfan Blwyddyn 3 ar gyfer pob ysgol* | % y disgyblion Blwyddyn 3 mewn addysg cyfrwng Cymraeg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2016 | 65 | 20 | 37 | 27 | 149 | 1631 | 9.14% |
| 2017 | 41 | 21 | 37 | 25 | 124 | 1593 | 7.78% |
| 2018 | 55 | 13 | 41 | 29 | 138 | 1694 | 8.15% |
| 2019** | 64 | 28 ** | 41 | 29 | 162 | 1780 | 9.10% |
| 2020 | 53 | 21 | 38 | 24 | 136 | 1713 | 7.94% |

O ystyried y niferoedd bach dan sylw, mae angen dehongli unrhyw wahaniaeth o flwyddyn i flwyddyn yn ofalus oherwydd gall newid bach effeithio ar y cyfrannau (e.e. un teulu'n symud i mewn/allan o'r ardal neu ysgol newydd yn agor). Mae'r ffigurau uchod yn dangos patrwm tebyg dros y blynyddoedd heb fawr o amrywiad. Yn rhan o'n dyhead i gyflawni'r targedau uchelgeisiol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, cynlluniwyd cryn dipyn o waith hyrwyddo er mwyn annog mwy o deuluoedd i ystyried addysg cyfrwng Cymraeg i'w plentyn/plant. O ystyried bod y rhain yn cael eu hanelu at famau o adeg geni eu plentyn/plant, rhagwelwn y dylai'r cynnydd yn y niferoedd ddechrau dangos ym Mlwyddyn 3 ymhen oddeutu pum mlynedd.

Er bod y nifer gwirioneddol wedi gostwng o'i gymharu â 2019-2020, mae hyn yn adlewyrchu'r garfan lai. Mae cyfran y garfan sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi aros yn debyg i flynyddoedd blaenorol, er bod 2019 yn dangos ffigur ychydig yn uwch – a allai fod yn gysylltiedig ag agor Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd ym mis Ionawr 2019.

## 3.2

Rhoddodd y pandemig gyfle i wneud gwaith trochi mwy dwys ar gyfer hwyrddyfodiaid i YGG Llangynwyd. Mae hwn yn faes i'w ddatblygu ymellach.

## Ble’r ydym yn bwriadu bod ar ôl 5 mlynedd gyntaf y Cynllun hwn a sut yr ydym yn bwriadu cyrraedd yno?

### 3.3

Yn rhan o’n dyhead i gyflawni’r targedau uchelgeisiol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, cynlluniwyd cryn dipyn o waith hyrwyddo er mwyn annog mwy o deuluoedd i ystyried addysg cyfrwng Cymraeg i’w plentyn/plant. O ystyried bod y rhain yn cael eu hanelu at famau o adeg geni eu plentyn/plant, rhagwelwn y dylai’r cynnydd yn y niferoedd ddechrau dangos ym Mlwyddyn 3 ymhen oddeutu pum mlynedd.

### 3.4

Bydd Consortiwm Canolbarth y De yn parhau i hyrwyddo strategaethau ar gyfer defnyddio’r Gymraeg yn effeithiol mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol ar draws pob sector ac ystod oedran. Bydd hefyd yn parhau i hyrwyddo mentrau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sydd â’r nod o hybu’r Gymraeg fel pwnc a chyfrwng addysg.

### 3.5

Bydd Consortiwm Canolbarth y De yn gweithio'n agos gyda’r awdurdod lleol ac ysgolion targed lle gallai cyfraddau trosglwyddo fod yn destun pryder ynddynt ac yn cyhoeddi adnoddau i gefnogi a rhoi sicrwydd i rieni/gofalwyr ynghylch trosglwyddo rhwng camau.

### 3.6

Bydd Consortiwm Canolbarth y De yn cefnogi’r awdurdod lleol i ddarparu cyngor, dysgu proffesiynol ac adnoddau i ysgolion cyfrwng Saesneg penodol a nodwyd er mwyn cynyddu canran y cwricwlwm a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg

## 3.7

Bydd Consortiwm Canolbarth y De yn cefnogi rhaglenni datblygu'r Gymraeg lleol, rhanbarthol a chenedlaethol drwy ddarparu cyngor, dysgu proffesiynol a chymorth dysgu Cymraeg a gwella sgiliau Cymraeg i ymarferwyr. Bydd hyn yn cynyddu nifer y staff sy'n gallu addysgu'r Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg ar draws pob sector.

## 3.8

Bydd Consortiwm Canolbarth y De yn parhau i ddatblygu cydweithrediad â'r sector uwchradd cyfrwng Cymraeg er mwyn darparu dysgu proffesiynol sy'n benodol i bynciau, yn enwedig mewn meysydd lle mae prinder ymarferwyr cyfrwng Cymraeg, yn y ffyrdd canlynol:

- ystyried cymorth Trochi Cymraeg ar draws awdurdodau lleol;
- darparu cyfleoedd i ysgolion cyfrwng Cymraeg gymryd rhan mewn mentrau i fonitro dilyniant ieithyddol e.e. barn gymharol;
- hwyluso cydweithrediad rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn cynhyrchu adnoddau sy'n hyrwyddo dilyniant ieithyddol i rieni/gofalwyr;
- Bydd Consortiwm Canolbarth y De yn darparu cyngor, dysgu proffesiynol ac adnoddau er mwyn cefnogi ysgolion i weithredu'r Gymraeg ar draws y Cwricwlwm, gan gynyddu faint o ddarpariaeth ddysgu a gynigir.
- Bydd Consortiwm Canolbarth y De yn parhau i rannu arferion da ar draws y rhanbarth mewn amrywiaeth o ffyrdd (e.e. gweminarau, podlediadau, blogiau a throeon dysgu).

## 3.9

Darperir cyfleoedd i ysgolion cyfrwng Cymraeg gymryd rhan mewn mentrau i fonitro dilyniant ieithyddol (e.e. barn gymharol).

## 3.10

Bydd Consortiwm Canolbarth y De yn hwyluso cydweithrediad rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn cynhyrchu adnoddau sy'n hyrwyddo dilyniant ieithyddol i rieni/gofalwyr.

### 3.11

Bydd Consortiwm Canolbarth y De yn darparu cyngor, dysgu proffesiynol ac adnoddau er mwyn cefnogi ysgolion i weithredu'r Gymraeg ar draws y Cwricwlwm, gan gynyddu faint o ddarpariaeth ddysgu a gynigir. Rhannu arferion da ar draws y rhanbarth mewn amrywiaeth o ffyrdd (e.e. gweminarau, podlediadau, blogiau a throeon dysgu).

## Ble'r ydym ni'n disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

### 3.12

Mae'r CSCA hwn yn nodi cynllun Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr dros y 10 mlynedd nesaf i gynyddu a gwella'r gwaith o gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg. Ein disgwyliad na fyddem yn colli plant ar bwyntiau trosglwyddo critigol.

# Deilliant 4

# Mae mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau a asesir yn y Gymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg

## Y sefyllfa bresennol?

### 4.1

Mae'r tabl isod yn dangos bod nifer y myfyrwyr 14 i 16 oed sy'n astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf (drwy gyfrwng y Gymraeg) wedi aros yn sefydlog ar oddeutu 100 o ddisgyblion y flwyddyn.  Mae'r niferoedd hyn yn cyfateb i faint carfan yr unig ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y fwrdeistref.

Rydym hefyd wedi cynnwys nifer y myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer arholiadau yn y Gymraeg fel ail iaith ac effaith y cwrs Cymraeg ail iaith llawn yn dod yn orfodol yn 2017.

| | Cymraeg Iaith 1af | Cymraeg 2il Iaith (Llawn) | Cymraeg 2il Iaith (Byr) |
|---|---|---|---|
| **2016** | 98 | 585 | 784 |
| **2017** | 99 | 877 | 769 |
| **2018** | 77 | 1185 | * |
| **2019** | 99 | 1094 | * |
| **2020** | 100 | 1122 | * |
| **2021** | 99 | 1189 | * |

**Ym mis Medi 2017, daeth cwrs TGAU Cymraeg ail iaith llawn yn orfodol

### 4.2

Dengys y tabl isod fod nifer y myfyrwyr 16 i 19 oed sy'n astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf ac ail iaith wedi gostwng yn y flwyddyn 2020. Fodd bynnag, cynyddodd y niferoedd eto yn 2021. Daw'r data o ffeiliau USA CBAC.

| | Cymraeg Iaith 1af | Cymraeg 2il Iaith |
|---|---|---|
| **2016** | 9 | 22 |
| **2017** | 10 | 29 |
| **2018** | 10 | 14 |
| **2019** | 9 | 16 |
| **2020** | 2 | 9 |
| **2021** | 9 | 19 |

## 4.3

Mae ffigurau poblogaeth Blwyddyn 12/13 YGG Llangynwyd o CYBLD 2016-2021 yn dangos y bu gostyngiad yn y niferoedd sy'n parhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, er y gellid priodoli hyn yn rhannol i faint llai y garfan. Mae'r niferoedd wedi cynyddu yn 2021. Nid oes gennym ni ddata ar y niferoedd sy'n astudio mewn coleg neu leoliadau dysgu seiliedig ar waith.

Ffigurau CYBLD ar gyfer YGG Llangynwyd

| Ionawr | Blwyddyn 12 | Blwyddyn 13 |
|---|---|---|
| 2016 | 55 | 55 |
| 2017 | 69 | 42 |
| 2018 | 65 | 53 |
| 2019 | 45 | 49 |
| 2020 | 53 | 32 |
| 2021 | 66 | 48 |

## 4.4

Mae trefniadau cydweithredu cryf ar waith eisoes rhwng Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf. Ceir rhywfaint o gydweithrediad â Coleg Penybont hefyd ar gyfer disgyblion ôl-16. Mae sefydliadau addysg bellach yn gweithio i ymchwilio i'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion iau (Blwyddyn 10 neu hŷn) ac i edrych ar eu gallu i gyflwyno cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg.

### 4.5
Cefnogir ysgolion uwchradd i gymryd camau i gynyddu nifer y cymwysterau y gall dysgwyr eu hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg drwy gydweithredu. Mae'r awdurdod lleol yn talu costau cludiant am y cyrsiau cydweithredol a gynigir

### 4.6
Cynigir y Gymraeg fel pwnc Safon Uwch mewn ysgolion, a chefnogir ysgolion i gynnal dosbarthiadau llai o faint drwy gydweithrediad rhwng ysgolion i greu dosbarthiadau o faint hyfyw. Telir costau cludiant gan yr awdurdod lleol.

## Ble'r ydym yn bwriadu bod ar ôl pum mlynedd gyntaf y cynllun hwn a sut yr ydym yn bwriadu cyrraedd yno?

### 4.8
Gallai gwell cyfraddau cadw a throsglwyddo effeithio ar y deilliant hwn yn ystod pum mlynedd gyntaf y cynllun hwn.

### 4.9
Efallai y bydd angen rhoi rhagor o bwyslais ar ddulliau dysgu cyfunol/dysgu o bell yn y lle cyntaf er mwyn sicrhau bod disgyblion yn gallu dilyn ystod ehangach o gyrsiau (pan na ellir addysgu pynciau arbenigol penodol drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd).

### 4.10
Bydd yr awdurdod lleol yn parhau i weithio gydag ysgolion uwchradd i gydgysylltu darpariaeth y Gymraeg fel pwnc ym mhob lleoliad. Ar gyfer Ôl-16, cyflawnir hyn drwy gydweithredu, oherwydd nad oes gan fwyafrif yr ysgolion niferoedd hyfyw ar gyfer dosbarth. Gallai fod rhywfaint o gydweithrediad rhithwir yng nghyfnod allweddol 4.

### 4.11
Trwy gydweithredu â Chonsortiwm Canolbarth y De, ymdrinnir â'r meysydd canlynol:

- sicrhau dysgu ac addysgu o ansawdd uchel ym mhob ysgol cyfrwng Cymraeg;
- cynyddu nifer y disgyblion sy'n trosglwyddo o addysg gynradd i addysg uwchradd - gan sicrhau cyfraddau trosglwyddo uchel o bob ysgol gynradd sy'n bwydo;
- hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg ymhlith rhieni/ gofalwyr a sut y gall rhieni/gofalwyr gefnogi eu plant hyd yn oed os nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref;

- ystyried defnyddio technoleg ddigidol i gynyddu'r cymwysterau a gynigir drwy gyfrwng y Gymraeg, er enghraifft archwilio e-sgol;
- parhau i ddatblygu cydweithrediad â'r sector uwchradd cyfrwng Cymraeg er mwyn darparu dysgu proffesiynol sy'n benodol i bynciau, yn enwedig mewn meysydd lle mae prinder ymarferwyr cyfrwng Cymraeg;
- datblygu a gweithredu strategaeth farchnata strategol i hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc Safon Uwch (gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, profiadau disgyblion/rhieni yn y gorffennol, hyrwyddo manteision);
- gweithio gyda darparwyr allanol a Llywodraeth Cymru ar unrhyw fentrau cenedlaethol i hybu'r Gymraeg fel pwnc Safon Uwch; ac
- ystyried defnyddio technoleg ddigidol i gynyddu'r cymwysterau a gynigir drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Ble'r ydym ni'n disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

### 4.12
Bydd y targed hwn yn dibynnu ar niferoedd y carfanau presennol yn y system. Bydd y gwaith helaeth a wnaed i ddenu'r blynyddoedd cynnar i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn effeithio ar y deilliant hwn. Bydd hyn yn cymryd amser i ddwyn ffrwyth ond dylai fod wedi ei wireddu ar ddiwedd y cynllun deng mlynedd.

### 4.13
Mae gwahanol ddarnau o waith a fyddai wedi eu hymgorffori megis

- cyflwyno darpariaeth drochi i hwyrddyfodiaid;
- dylid ymgorffori'r broses o agor lleoliadau blynyddoedd cynnar newydd;
- cefnogi rhieni i gefnogi eu plant;
- darpariaeth drochi i hwyrddyfodiaid;
- hyfforddiant fel y gall staff addysg ddysgu Cymraeg; a
- gwella'r Gymraeg at ddibenion addysgu (e.e. cynllun sabothol Llywodraeth Cymru).

# Deilliant 5

# Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol

## Y sefyllfa bresennol?

## 5.1

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ysbrydoli plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar eu bywyd. Ceir cydweithrediad cryf â Chonsortiwm Canolbarth y De a'r ysgol i rannu arferion da. Ers lansio'r Siarter Iaith yn ein hysgolion cyfrwng Cymraeg a Siarter Iaith Cymraeg Campus yn ein hysgolion cyfrwng Saesneg, mae'r ysgolion wedi gwneud gwaith arloesol i gynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yng nghymuned yr ysgol gyfan.

## 5.2 Siarter Iaith Cymraeg Campus (English-medium)

| | **Efydd** | **Arian** | **Aur** |
|---|---|---|---|
| **Nifer yr ysgolion** | 10 | 3 | 1 |

## Siarter Iaith (Welsh-medium)

| | **Efydd** | **Arian** | **Aur** |
|---|---|---|---|
| **Nifer yr ysgolion** | 4 | 4 | |

Mae Ysgol Arbennig Bryn Castell ac Ysgol Maesteg yn rhan o gynllun treialu Cymraeg Campus ar gyfer ysgolion uwchradd ar hyn o bryd

## 5.3

Ceir amryw o weithgareddau i blant a phobl ifanc ymgysylltu â nhw er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cael profiad o'r Gymraeg fel iaith fyw. Maent fel a ganlyn:

- cysylltiadau â'r Urdd (chwaraeon, Eisteddfod, Glan Llyn, Llangrannog;
- ymweliadau ag ysgolion a sesiynau rheolaidd gydag ôl-16, Cymraeg Bob Dydd);
- cysylltiadau â Menter Iaith Bro Ogwr, gyda disgyblion ôl-16 yn bennaf;
- Eisteddfodau ysgol;
- Diwrnod Shwmae/Dydd Miwsig Cymru;
- teithiau – Tafwyl;
- ymweliadau/perfformiadau gan Mr Phormula, Candela, Tudur Clocsio;
- cyfarfodydd boreol Cymraeg;
- annog a hyfforddi staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwersi gymaint â phosibl;
- gwobrau a roddir gan y disgyblion i un aelod o staff bob hanner tymor am y defnydd mwyaf o'r Gymraeg mewn gwersi;
- credydau ychwanegol i ddisgyblion am ddefnyddio'r Gymraeg;

- defnyddio Swogs Cymraeg sy'n ymgynghori ag adran y Gymraeg ar gynnwys y dysgu ac yna'n cyflwyno rhan o hyn i'w dosbarthiadau blwyddyn;
- Criw Cymraeg;
- defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i annog rhieni i ddefnyddio rhywfaint o Gymraeg hefyd;
- defnyddio'r "Athrawes Fro"

### 5.4

Mae Chromebooks wedi eu rhoi i blant a phobl ifanc ym mhob ysgol cyfrwng Cymraeg.

## Ble'r ydym yn bwriadu bod ar ôl 5 mlynedd gyntaf y Cynllun hwn a sut yr ydym yn bwriadu cyrraedd yno?

### 5.5

Bydd is-grŵp o'r Cynllun Strategol yn cael ei sefydlu i ysgogi'r maes gwaith hwn. Er enghraifft, mapio'r hyn sydd ar gael gan yr Urdd, Menter Iaith a sicrhau bod cyhoeddusrwydd da. Cynnwys gweithwyr ieuenctid yn y maes gwaith hwn a dylai'r Cyngor Ieuenctid sicrhau bod gennym lais plant a phobl ifanc wrth wraidd y datblygiad hwn

### 5.6

Parhau i ddatblygu model cymorth ymgysylltu cynnar ar gyfer lleoliadau nas cynhelir mewn meysydd targed er mwyn gwella profiadau ieithyddol cynnar plant.

### 5.7

Bydd dysgu proffesiynol Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu Cymraeg o ansawdd uchel yn amlwg mewn ysgolion a chymorth pwrpasol ar gyfer ysgolion/clystyrau unigol.

### 5.8

Dysgu proffesiynol a chymorth Trochi Cymraeg.

### 5.9

Datblygir adnoddau i gefnogi'r cwricwlwm newydd.

## 5.10
Rhennir data Siarter Iaith â Fforwm y Cynllun Strategol yn rheolaidd. Hyrwyddo'r adnoddau sydd ar wefan Llywodraeth Cymru.

## 5.11
Darparu swyddog arweiniol Consortiwm Canolbarth y De dynodedig ar gyfer pob ysgol er mwyn cefnogi cynnydd y Siarter Iaith a Cymraeg Campus. Hyrwyddo, cefnogi, herio ac achredu pob ysgol i wneud cynnydd â'r Siarter Iaith a Gwobrau Cymraeg Campus. Gwerthuso a rhannu arferion gorau.

## 5.12
Cefnogi datblygiad iaith ac ymgysylltiad â rhieni. Bydd yr awdurdod lleol yn parhau i gydweithio â Rhieni dros Addysg Gymraeg fel aelodau o Fforwm y Cynllun Strategol.

## 5.13
Datblygu ymhellach y cymorth y gallai YGG Llangynwyd ei ddarparu ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg. Ystyried hefyd y gefnogaeth rhwng cymheiriaid o'r ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, Bore Coffi.

## 5.14
Cynnal dadansoddiad o'r gweithwyr yn yr Urdd a Menter Iaith.

## 5.15
Cefnogi datblygiad y parth digidol ar gyfer plant a phobl ifanc a chymhelliant i ymgysylltu â'r iaith. Er enghraifft, Minecraft, Roblox

## 5.16
Parhau i alinio â Strategaeth Pum Mlynedd Hybu'r Gymraeg 2021-2026 y Cyngor. Mae'r swyddog arweiniol yn aelod o Fforwm y Cynllun Strategol ac mae hefyd yn aelod o'r is-grŵp hyfforddi a phrentisiaethau.

# Ble'r ydym ni'n disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

## 5.17
Byddem ni eisiau pob ysgol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cyflawni statws Aur Siarter Iaith a Siarter Iaith Cymraeg Campus.

# Deilliant 6

# Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

## Y sefyllfa bresennol?

### 6.1

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y Cyngor) wedi cymryd rhan lawn a chydymffurfio â'r gwaith o baratoi i roi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ar waith ym mis Medi 2021. Bydd y Cyngor yn sicrhau y cymerir yr holl gamau angenrheidiol er mwyn parhau i gydymffurfio â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 wrth ddarparu system ddarpariaeth ADY ddwyieithog a chefnogi'r ystod oedran 0 i 25 yn unol â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

### 6.2

Mae Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 yn rhoi dyletswydd ar awdurdod lleol i adolygu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn barhaus. Bydd y Cyngor yn ystyried i ba raddau y mae'r trefniadau hyn yn ddigonol i ddiwallu ADY y plant a'r bobl ifanc yr ydym yn gyfrifol amdanynt.

### 6.3

Bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth lawn i ddigonolrwydd y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn y Gymraeg a hefyd i faint a gallu'r gweithlu, sydd hefyd yn cynnwys ystyried y gweithlu cyfrwng Cymraeg

### 6.4

Mae'r Cyngor wedi defnyddio dull rhagweithiol o adolygu ei sefyllfa bresennol er mwyn ymateb i newidiadau yn y galw a gwneud gwasanaethau'n addas i'r diben o ran mynd i'r afael ag anghenion plant a phobl ifanc sydd ag ADY, yn awr ac yn y dyfodol. Yn dilyn ymarfer caffael, comisiynwyd Peopletoo ym mis Mawrth 2020 gan y

Cyngor i gynnal yr Adolygiad hwn o Gynllunio Strategol ar gyfer Anghenion Ychwanegol.

## 6.5

Ceisiodd yr adolygiad:

- nodi ADY presennol poblogaeth yr ysgol a'r ddarpariaeth ADY bresennol yn y 59 o ysgolion a'r uned cyfeirio disgyblion ym Mhen-y-bont ar Ogwr;
- rhagamcanu'r ADY tebygol yn y dyfodol (y galw) a'r ddarpariaeth yn y dyfodol i ddiwallu'r anghenion hynny (y cyflenwad);
- nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth;
- archwilio'r angen am gronfa ddata'r Cyngor o'r disgyblion sydd ag ADY;
- (os yw'n berthnasol) cynnig modelau eraill i fodloni'r galw tebygol am ADY yn y dyfodol; a
- nodi'r gyllideb ofynnol ar gyfer y dewisiadau posibl a nodwyd yn yr adolygiad o ddarpariaeth ADY.

## 6.6

Daeth yr adolygiad i ben yn nhymor yr hydref 2020, ac un o argymhellion yr adolygiad oedd gwella ehangder ac ymatebolrwydd y ddarpariaeth. Mewn cysylltiad â darpariaeth cyfrwng Cymraeg, yr argymhelliad yw adolygu a diwygio model y ddarpariaeth anawsterau dysgu cymedrol cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau bod y dull yn deg o'i gymharu â'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg.

## 6.7

Agorwyd Canolfannau Adnoddau Dysgu yn YGG Calon y Cymoedd yn 2019 ac YGG Llangynwyd yn 2018 ar gyfer disgyblion sydd â diagnosis o anhwylder sbectrwm awtistig. Mae hyn yn golygu, os oes disgybl sy'n siarad Cymraeg â diagnosis o anhwylder sbectrwm awtistig, y gall y disgybl hwnnw barhau i gael ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

## 6.8

Ar hyn o bryd, mae adolygiad synhwyraidd yn cael ei gynnal ar draws Consortiwm Canolbarth y De, er mwyn ymgynghori ar sefydlu gwasanaeth synhwyraidd rhanbarthol.

## Ble’r ydym yn bwriadu bod ar ôl pum mlynedd gyntaf y cynllun hwn a sut yr ydym yn bwriadu cyrraedd yno?

### 6.9

Monitro ac adolygu’r ddarpariaeth ADY yn unol ag unrhyw anghenion sy'n dod i’r amlwg yn ystod pum mlynedd gyntaf y Cynllun Strategol.

### 6.10

Parhau i sicrhau y cymerir pob cam rhesymol i sicrhau bod pob dysgwr sydd ag ADY neu anghenion sy’n dod i’r amlwg yn gallu cael cymorth gan ysgolion prif ffrwd, ysgolion arbennig a gwasanaethau cynghori y Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn sicrhau y cydymffurfir yn llawn â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a bod system ddwyieithog ar gyfer disgyblion sydd ag ADY.

### 6.11

Bydd trosolwg strategol o sgiliau ieithyddol y gweithlu ar waith ar draws pob ysgol.

### 6.12

Mewn cydweithrediad â Chonsortiwm Canolbarth y De, bydd darpariaeth ac adnoddau’r cwricwlwm yn briodol ar gyfer unrhyw ddisgybl sydd ag ADY mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg.

### 6.13

Parhau i weithio gyda’r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles a Coleg Penybont er mwyn sicrhau bod darpariaeth briodol a gweithlu hanfodol.

### 6.14

Sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn ymgysylltu’n llawn.

## Ble’r ydym ni’n disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Byddem yn disgwyl i unrhyw blentyn neu berson ifanc sy’n siarad Cymraeg ag angen dysgu ychwanegol barhau gyda’u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

# Deilliant 7

# Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

## Y sefyllfa bresennol?

### 7.1

Canran yr athrawon mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

- % yr athrawon mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg fel % o'r holl athrawon ym Mhen-y-bont ar Ogwr yw 8.17%.

- Mae'r staff ysgol sy'n ymwneud â chyrsiau sabothol y Gymraeg fel a ganlyn:

**Cymraeg mewn blwyddyn Medi 2019 – Awst 2020.**

- Ysgol Gynradd y Garth – CH
- Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair a Sant Padrig – CM
- Ysgol Gynradd Notais – MN
- Ysgol Gynradd Notais – MD
- Ysgol Gynradd Llangynwyd – NT

**Cymraeg mewn blwyddyn Medi 2020 – Awst 2021**

- Ysgol Gynradd y Drenewydd-yn-Notais – HJ
- Ysgol Gynradd Betws – JB

**Mynediad – Ionawr 2020**

- Ysgol Gynradd Pencoed – AD-J
- Ysgol Gynradd Pencoed – LH
- Ysgol Gynradd Pencoed – LP
- Ysgol Gynradd Pencoed – NC
- Ysgol Gynradd Pen-y-bont – BS
- Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair a Sant Padrig – KB

Gwnaeth ysgolion eraill gais am y cwrs canolradd yn ystod tymor yr haf 2020 ond oherwydd y pandemig, bu'n rhaid gohirio hyn tan haf 2021.

Mae'r cwrs canolradd yn newydd i'r pecyn cwrs sabothol ac fe'i bwriedir ar gyfer athrawon sydd eisoes wedi dilyn un o'r cyrsiau sabothol yn y gorffennol, ond a allai fod wedi colli hyder oherwydd diffyg cyfle i ddefnyddio eu sgiliau

Gwnaed cais gan yr ysgolion canlynol:

- Ysgol Gynradd Trelales – IG
- Ysgol Gynradd Betws – TF
- Ysgol Gynradd Pencoed – AW

Nid oes data ar gael ar hyn o bryd am athrawon ysgol sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

## 7.2

Gan gysylltu â Strategaeth Pum Mlynedd Safonau'r Gymraeg y Cyngor i gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae'r Strategaeth wedi ei hadolygu'n flynyddol. Mae'r adolygiad diweddaraf yn dangos yr ystod o gamau a gymerwyd i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ledled y fwrdeistref sirol. Ceir cynllun pum mlynedd newydd o fis Medi 2021.

## 7.3

Yn fewnol, mae amrywiaeth o gyfleoedd dysgu a datblygu ar gael i bob cyflogai, i wella sgiliau iaith yn ogystal â chodi ei ymwybyddiaeth o'r iaith, gan gynnwys e-ddysgu a chyrsiau i wella sgiliau Cymraeg. Wrth recriwtio i swyddi Cymraeg, cyfeirir i hysbysebion hefyd ar wefan Menter Bro Ogwr.

## 7.4

Effeithiodd y pandemig ar y gwaith o gynllunio a datblygu'r gweithlu. Ni chynigiwyd unrhyw hyfforddiant yn ystod mis Mawrth 2020 – Gorffennaf 2020. Diwygiwyd rhaglen hyfforddi 2020-2021 ym mis Awst 2020 a diwygiwyd y model cyflawni oherwydd nad oedd modd cynnig hyfforddiant wyneb yn wyneb. Ers mis Awst 2020, mae'r holl hyfforddiant wedi ei ddarparu o bell.

## 7.5

O ran cyrsiau Cymraeg, mae'r awdurdod lleol yn parhau i gynnig cymhwyster Cwrs Mynediad Blwyddyn 1 drwy Brifysgol De Cymru a'r cyrsiau Cwrdd a Chyfarch Cymraeg i holl staff yr awdurdod lleol ddwywaith y flwyddyn. Rydym hefyd wedi cynnig Cymraeg Gwaith am y tro cyntaf yn 2020-2021 (fel cynllun treialu cychwynnol), a gyflwynwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Rydym hefyd yn parhau i gefnogi cyflogeion i gael gafael ar gyrsiau Cymraeg yn y gymuned o dan Brotocol y Gymraeg.

## 7.6

Felly, mae'r nifer sy'n manteisio ar gyrsiau Cymraeg eleni yn debyg iawn i ffigurau'r llynedd o ran y cymwysterau a gynigir.

# Ble'r ydym yn bwriadu bod ar ôl pum mlynedd gyntaf y cynllun hwn a sut yr ydym yn bwriadu cyrraedd yno?

## 7.7

Cynhelir archwiliad o'r athrawon ysgol hynny sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

## 7.8

Bydd yr awdurdod lleol, Consortiwm Canolbarth y De a phartneriaid yn gwneud y gwaith canlynol i nodi a chefnogi datblygiad y gweithlu.

- bydd Consortiwm Canolbarth y De yn parhau i ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol, datblygu adnoddau, hwyluso'r broses o rannu arferion da a darparu cymorth pwrpasol i ysgolion unigol neu grwpiau o ysgolion ledled y rhanbarth;
- bydd Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i weithio'n agos gydag awdurdodau lleol eraill yng Nghonsortiwm Canolbarth y De, gan gynllunio a chefnogi staff ysgolion ar draws pob sector i wella eu sgiliau Cymraeg ymhellach;
- bydd Consortiwm Canolbarth y De yn parhau i ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol, datblygu adnoddau, hwyluso'r broses o rannu arferion da a darparu cymorth pwrpasol i ysgolion unigol neu grwpiau o ysgolion ledled y rhanbarth;
- ar y cyd â Chonsortiwm Canolbarth y De, bydd Pen-y-bont ar Ogwr yn sicrhau yr ystyrir y Cynllun Strategol wrth drafod safonau addysg cyfrwng Cymraeg ei ysgolion;
- ystyried data cyfrifiad blynyddol gweithlu ysgolion yn flynyddol er mwyn cefnogi'r gwaith o gynllunio'r gweithlu;
- defnyddio gwybodaeth leol a gwybodaeth a gesglir gan Bartner Gwella Consortiwm Canolbarth y De i ategu data'r cyfrifiad;
- bydd yr awdurdod lleol yn cynnal dadansoddiad i ddeall tueddiadau mewn swyddi gwag a'r swyddi gwag sydd eu hangen;
- ystyried hyfforddi a chynllunio olyniaeth cynorthwywyr cymorth dysgu;

- sicrhau bod staff o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gwneud cais am raglenni arweinyddiaeth cenedlaethol perthnasol a chyfleoedd dysgu proffesiynol;
- sicrhau bod staff o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gwneud cais am raglenni datblygu arweinyddiaeth cenedlaethol perthnasol gan gynnwys y Rhaglen Darpar Benaethiaid gan arwain at y CPCP;
- monitro nifer yr ymgeiswyr cyfrwng Cymraeg ar y rhaglenni arweinyddiaeth cenedlaethol, gan gynnwys adroddiadau cyrchfan ar gyfer ymgeiswyr CPCP;
- parhau i weithio’n agos gyda phartneriaethau addysg gychwynnol i athrawon er mwyn cefnogi athrawon dan hyfforddiant;
- bydd Consortiwm Canolbarth y De yn gweithio gyda phartneriaethau addysg gychwynnol i athrawon i sicrhau bod ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cael eu nodi fel ysgolion ar gyfer arwain, hyfforddi neu leoli;
- bydd Consortiwm Canolbarth y De yn gweithio gyda phartneriaid allanol i hyrwyddo mentrau ar lwybrau i addysgu ac i rannu unrhyw wybodaeth berthnasol ag ysgolion;
- darperir dysgu proffesiynol a chymorth i athrawon newydd gymhwyso yn arbennig drwy fentoriaid sefydlu rhanbarthol;
- cynhelir dadansoddiad o ddata’r Fframwaith Iaith fel llinell sylfaen ar gyfer y gwelliant sydd ei angen;
- darperir dysgu proffesiynol Datblygu’r Gymraeg ar wahanol lefelau gan Gonsortiwm Canolbarth y De;
- bydd Consortiwm Canolbarth y De yn darparu cymorth ôl-sabothol i ymarferwyr sy’n ymwneud â rhaglenni sabothol;
- drwy waith y Swyddog Cymraeg mewn Addysg, bydd Consortiwm Canolbarth y De yn rhoi cyngor, cymorth ac arweiniadi ysgolion ar sut i adlewyrchu sgiliau Cymraeg staff yn gywir.

### 7.9
Pan fydd cyfrifiad blynyddol y gweithlu ysgolion wedi ei gwblhau’n flynyddol, gellid cynnal dadansoddiad o ran categorïau allweddol, megis oedran ac ati fel y gellir nodi cynllunio ar gyfer olyniaeth, er enghraifft, ar gyfer ymddeoliad.

### 7.10
Parhau i ddatblygu is-grŵp hyfforddi a phrentisiaethau o’r Cynllun Strategol.

## Ble’r ydym ni’n disgwyl bod ar ddiwedd ein cynllun deng mlynedd?

Byddai angen staff ychwanegol i gefnogi’r holl ymrwymiadau ysgol newydd yn y cynllun deng mlynedd. Byddai angen paratoi ar gyfer hyn ymlaen llaw.

## Sut y byddwn yn gweithio gydag eraill i gyflawni ein gweledigaeth

Mae Fforwm Cymraeg mewn Addysg sefydledig ac effeithiol ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Er mwyn paratoi'r Cynllun Strategol deng mlynedd, cynhaliwyd diwrnod cynllunio gydag aelodau o Fforwm y Cynllun Strategol yn ystod tymor yr haf 2021. Gwahoddwyd holl aelodau Fforwm y Cynllun Strategol i gyfrannu at y cynllun ac arweiniwyd pob deilliant gan aelod o Fforwm y Cynllun Strategol. Darparwyd templedi er mwyn i aelodau a'u priod sefydliadau allu cyflwyno unrhyw sylwadau ychwanegol ar gyfer y Cynllun Strategol erbyn dyddiad cau penodol yn ystod tymor yr haf 2021.

Bydd monitro'n digwydd bob tymor ym mhob Fforwm Cynllun Strategol yn ogystal ag yn yr is-grwpiau a sefydlwyd a'r is-grwpiau hynny a fydd yn cael ei sefydlu.

Mae aelodaeth Fforwm y Cynllun Strategol fel a ganlyn:

- Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd;
- Aelod y Cabinet – Addysg ac Adfywio;
- Rheolwr Grŵp – Cymorth i Ddysgwyr (Cadeirydd);
- Uwch-swyddog Cynllunio Addysg Cymru Llywodraeth Cymru;
- Prif Gynghorydd Cysylltiadau Gweithwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr;
- Rheolwr Rhaglen Ysgolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr;
- Rheolwr Grŵp – Cymorth Busnes;
- Rheolwr Grŵp – Cymorth Ysgolion;
- Rheolwr Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Swyddog Datblygu Gofal Plant a Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr;
- Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldebau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Pennaeth Cymraeg i Oedolion Morgannwg;
- Prif Swyddog Menter Bro Ogwr;
- Rheolwr Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru Meithrin Cymru;
- Cynrychiolydd Consortiwm Canolbarth y De;
- Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr a'r Gymraeg Coleg Penybont;
- Swyddog Arweiniol Partneriaethau Meithrin Cymru;
- Cyfarwyddwr Datblygu Rhieni dros Addysg Gymraeg;

- Cadeirydd Rhieni dros Addysg Gymraeg Pen-y-bont ar Ogwr;
- Cynrychiolwyr Rhieni dros Addysg Gymraeg Pen-y-bont ar Ogwr;
- Swyddog Arweiniol Urdd Gobaith Cymru;
- Cynrychiolydd Prifysgol Abertawe;
- Pennaeth – Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd;
- Pennaeth – Calon y Cymoedd;
- Pennaeth – Ysgol y Ferch O'r Sgêr.
- Pennaeth – Afon y Felin;
- Pennaeth – Ysgol Gyfun Pencoed;
- Pennaeth y Gymraeg – Ysgol Brynteg.